# Y Diweddaraf am Ganolfan Ddiwylliant Conwy
# Medi 2018

### Y Gwaith Adeiladu



Ers inni gyhoeddi ein newyddlen ddiwethaf fis Ebrill bu'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn dda. Os dringwch chi i ben muriau'r dref fe gewch olwg fendigedig ar y safle. Y twll mawr dwfn sydd wedi'i gloddio yn y canol fydd ein stordy newydd modern ar gyfer casgliadau gwerthfawr ein harchifdy a'r amgueddfa. Hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Gyfunol, stordy tanddaearol a fydd yn arbed ynni drwy ddefnyddio tymheredd y ddaear i gadw'r deunyddiau bregus mewn amgylchedd perffaith. Y cam nesaf fydd gosod y sylfeini, a gan fod y gwaith yn mynd ymlaen yn ôl y rhaglen dylai'r Ganolfan fod yn barod i agor ei drysau yn hydref 2019. Mae cwmni adeiladu Wynne Construction yn awyddus i gynnig profiad o waith adeiladu fel rhan o'r prosiect, ac oes gwyddoch chi am rywun a fyddai â diddordeb, mae croeso ichi gysylltu.

### Arddangosfeydd, digwyddiadau a hyfforddiant

Mae staff yr archifdy a gwirfoddolwyr y Ganolfan Ddiwylliant wrthi'n brysur yn catalogio ein casgliadau a'u hail-becynnu i fod yn barod i symud flwyddyn nesaf. Bu'r staff hefyd yn cyflwyno sesiynau i roi blas i bobl ar ymchwilio i hanes teulu, a chyn bo hir byddant yn cynnig cwrs achredEdig. Ychydig iawn o leoedd sydd ar ôl.



Mae ein prosiect Ieuenctid cyntaf wedi dechrau, dan arweiniad Gwasanaeth Ieuenctid Conwy ac Oriel Colwyn. Mae Datgeliad Conwy wedi arfogi pobl ifanc o'r sir gyda sgiliau ffotograffiaeth newydd trwy gwrs achredEdig yn archwilio treftadaeth adeiladau yn nhref Conwy.

Bydd Canolfan Ddiwylliant Conwy yn agor yn hydref 2019 a bydd yn gartref i lyfrgell newydd ar gyfer ardal Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno yn ogystal â chasgliadau Archif ac Amgueddfa'r sir, arddangosfeydd rhyngweithiol a gofod arbennig i gymunedau a chelf.

Bydd y ganolfan wedi ei lleoli ar gyffordd Town Ditch Road a Bangor Road, Conwy,

Cymerwch Ran!


diwylliant.culture@conwy.gov.uk

01492 576 139

diwylliantconwyculture



Ariennir Canolfan Ddiwylliant Conwy gan Gronfa Dreftadaeth Y Loteri, Gronfa Gymunedol Gwynt y MôrCyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru (Adran Amgueddfeydd, Archifau, a Llyfrgelloedd) a Chymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.





CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

GWYNT Y MÔR

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

YMDDIRIEDOLAETH CELFYDDYDAU CONWY
CONWY ARTS TRUST

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym hefyd newydd benodi tri o artistiaid i weithio ar gasglu atgofion o Ysgol Bodlondeb a'u dehongli yn eu ffyrdd eu hunain. Bydd Sian Hutchinson, Graham Hembrough a Lisa Heledd-Jones yn siarad â chyn-ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach a bydd y canlyniadau i'w gweld mewn arddangosfa yn y Ganolfan. Bydd yr artistiaid yn gweithio yn Llyfrgell Conwy ac yn cynnal nifer o sesiynau galw heibio lle bydd croeso i bawb. Cynhelir yr un cyntaf ar 5 Tachwedd.







Pobl Conwy fydd testun ein harddangosfa gyntaf yn y Ganolfan newydd. Mae ein Sioe Deithiol yn crwydro'r sir ar hyn o bryd yn casglu hanesion ac atgofion pobl, a hyd yn hyn buom yn ymweld â Charnifal Rowen a Llyfrgell Llanfairfechan. Cyrchfan nesaf y sioe deithiol fydd Llyfrgell Conwy ar adeg yr Ŵyl Fêl ar 13 Medi. Bydd y llyfrgell ar agor drwy'r dydd, felly galwch draw i'n gweld ni.




Rydym yn cydweithio ag Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy i greu Cornel Celf yn y Ganolfan newydd, lle bydd modd cynnal prosiectau sy'n cyfuno'r celfyddydau a threftadaeth. Fel rhan o'n rhaglen gelfyddydol rydym wedi dechrau cynnig sesiynau blasu i artistiaid gan ddefnyddio ein casgliadau hanesyddol yn ysbrydoliaeth. Cynhaliwyd yr un cyntaf gyda Grŵp Cymorth Mabwysiadu Conwy, a'r ysbrydoliaeth oedd y gwrthrychau Oes yr Iâ a ddaeth o Ogof Kendrick ar Ben y Gogarth.



Rydym yn benderfynol o greu Canolfan Ddiwylliant y gall pawb ddod iddi a'i mwynhau, ac rydym wrthi'n ffurfio grŵp llywio a fydd yn ein helpu i gyflawn statws Cyfeillgar tuag at Ddementia. Rydym hefyd yn siarad ag amrywiaeth o wahanol grwpiau i feithrin syniadau ar gyfer gardd synhwyraidd a dehongli hygyrch, a bydd mwy o wybodaeth am hyn yn ein newyddlen nesaf.



Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council
Heritage Lottery Funded / Ariennir gan y Loteri treftadaeth
Gwynt y Môr
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy Arts Trust
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government